**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Y Pwyllgor Busnes**

**Gorffennaf 2013**

# Amserlen ar gyfer ystyried y gyllideb ar gyfer 2014 – 2015

1. Ar 25 Mehefin 2013, rhoddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth wybod i'r Pwyllgor Busnes ar ba ddyddiad y bydd cyllideb ddrafft y Llywodraeth yn cael ei gosod gerbron y Cynulliad, ac ar ba ddyddiad y bydd y cynnig cyllideb blynyddol yn cael ei gyflwyno, yn unol â Rheol Sefydlog 20.2.

2. Yn unol â Rheol Sefydlog 20.4, mae'r Pwyllgor Busnes wedi ymgynghori â'r Pwyllgor Cyllid ac wedi llunio'r amserlen a ganlyn ar gyfer ystyried y gyllideb ar gyfer 2014 – 2015:

| | **Dyddiad** |
|---|---|
| **Cyllideb ddrafft y Llywodraeth yn cael ei gosod gerbron y Cynulliad** | 8 Hydref 2013 |
| **Y dyddiad cau i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno adroddiad ar gyllideb ddrafft y Llywodraeth** | 12 Tachwedd 2013 |
| **Y cynnig cyllideb blynyddol yn cael ei gyflwyno** | 3 Rhagfyr 2013 |